LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

23-05 (07)

**Eitem:** 11

**Title**: Ein ffyrdd o weithio: Cod Ymarfer ar fynediad i adeiladau ac ymgysylltu ag unigolion

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I'w nodi |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r gwaith sydd ar y gweill i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cod ymarfer ar fynediad i adeiladau ac ymgysylltu ag unigolion ar ôl iddo gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. |
| **Risg / Risk** | Dim yn berthnasol |
| **Cyllid / Finance** | Mae angen ymgorffori gofynion y cod yn ein polisïau a'n gweithdrefnau a allai arwain at gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu a chyfathrebu'r gweithdrefnau polisïau hynny ac unrhyw hyfforddiant perthnasol sydd ei angen i gefnogi. |
| **Amcan cynllun blynyddol / Annual plan objective Amcan cynllyn strategol/ Strategic plan objective Amcan cynllyn 100 diwrnod / 100 day plan objective** | Mae hyn yn gysylltiedig â sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ac yn darparu ein gwasanaethau. |
| **Cydraddoldeb / Equality** | Bydd Asesiad Effaith Integredig yn cael ei gynnal ar y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r cod ymarfer ar fynediad. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** Ein Pobl ☒ |

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care



| | |
|---|---|
| | **Allanol:** ein cwsmeriaid / partneriaid / rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Mae'r papur hwn wedi'i glirio gan y Brif Weithredwraig. |
| **Trafodaethau neu penderfyniadau blaenorol / Previous discussions or decisions** | Cafodd y Bwrdd olwg a mewnbwn i'r ymateb i'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar ei god ymarfer drafft ar fynediad i adeiladau ac ymgysylltu ag unigolion.. |
| **Awdur Cyflwyno / Author/presenting** | Ceri Sullivan |
| **Dyddiad / Date** | 14.07.2023 |

**Cefndir / Background**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol gyda Llais ar y cod ymarfer ar fynediad i adeiladau ac ymgysylltu ag unigolion. Gallwch ddod o hyd i ddolen i'r cod yma.

Paratôdd y Brif Weithredwraig ymateb a rannwyd gyda Thîm Arwain (ein huwch dîm arwain) ac aelodau anweithredol y Bwrdd i roi sylwadau ac adborth. Cyflwynwyd yr ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau ar 16 Mehefin 2023.

Cafodd ymateb Llais ar y cod drafft ei ystyried gan Lywodraeth Cymru, a gwnaed gwelliannau pellach i'r cod drafft cyn ei gyhoeddi. Gallwch ddod o hyd i ddolen i'r ohebiaeth hon yma.

**Manylion / Detail**

Yn dilyn cyhoeddi'r Cod Ymarfer ar 30 Mehefin 2023, cyfarfu Tîm Arwain i drafod ei gynnwys, a beth mae hyn yn ei olygu i'n ffyrdd o weithio.

Mae camau gweithredu bellach ar y gweill:

1. Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith ein staff a'n gwirfoddolwyr am ofynion y cod

1. Adeiladu'r gofynion i ddatblygu ein safonau, polisïau a gweithdrefnau
2. Cynnwys sylw o'r cod, a'r hyn y mae'n ei olygu i ni, i'n rhaglenni dysgu a datblygu
3. Ymgysylltu â chyrff y GIG ac awdurdodau lleol i gytuno ar y ffordd orau o gyflwyno ei ofynion yn ein trefniadau cydweithio.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ein cynnydd.